Senedd Cymru

**Polisïau Comisiwn y Senedd**

# Polisi Chwythu'r Chwiban

www.senedd.cymru

# Cynnwys

Cefndir ..... 3

Aelodai o’r Senedd a Staff Cymorth..... 3

Datgelu’n unol â'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd ..... 4

Y broses..... 4

Atodiad 1 – Siart lif y broses Chwythu’r Chwiban ..... 7

Atodiad 2 – Cwestiynau Cyffredin: ..... 8

# Cefndir

Ym marn Comisiwn y Senedd (y Comisiwn), mae nodi camweddau a damweiniau a fu bron a digwydd yn gyfraniad pwysig i'r gwaith o reoli risgiau corfforaethol a sicrhau prosesau llywodraethu da.

Anogir staff a gweithwyr eraill, fel contractwyr, i drafod materion sy'n peri pryder ynghylch ymddygiad neu gamweddau gyda'u rheolwyr llinell, neu berson priodol arall (e.e. Pennaeth Gwasanaeth, Cyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr a Chlerc). Bydd y Comisiwn yn ystyried materion a godir o ddifrif ac yn ymdrin â hwy yn briodol.

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn sylweddoli hefyd y gall fod yn anodd i gyflogeion nodi pryderon am gydweithwyr neu staff uwch. Cynlluniwyd y Polisi hwn i fynd i'r afael â'r anawsterau hynny a rhoi sicrwydd i gyflogeion y gallant dynnu sylw at gamweddau heb unrhyw risg iddynt hwy eu hunain. Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Comisiwn o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ac mae'n berthnasol i holl staff y Senedd, gan gynnwys staff dros dro a chontractwyr.

# Aelodai o'r Senedd a Staff Cymorth

Nid yw Aelodau o'r Senedd yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn, maent yn ddeiliaid swyddi cyhoeddus annibynnol a chyflogir staff yr Aelodau yn uniongyrchol gan yr Aelodau yn hytrach na'r Comisiwn. Felly, mae gweithdrefnau gwahanol yn berthnasol ar gyfer ymdrin â datgeliadau.

Yn achos pryderon sy'n ymwneud ag Aelodau o'r Senedd neu aelodau o'u staff, yn hytrach na chynnal ymchwiliadau mewnol fel y'u nodir yn y Polisi hwn, mae'n bosibl y caiff y mater ei gyfeirio at y Comisiynydd Safonau Annibynnol, os bydd y pryder o dan sylw yn ymwneud â 'darpariaeth berthnasol' y

mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ymchwilio iddi. Mae'n bosibl y caiff materion eu trosglwyddo i'r heddlu ymchwilio iddynt hefyd.

# Datgelu’n unol â'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd

Gall staff wneud datgeliad os byddant yn pryderu am gamwedd yn y Comisiwn. Mae'r materion sy'n cael eu hystyried yn gamweddau yn cynnwys:

- troseddau, er enghraifft, dwyn drwy hawlio treuliau anwir;
- torri rhwymedigaethau cyfreithiol (rheoleiddiol, gweinyddol, cyfraith gontractau neu gyfraith gyffredin), er enghraifft, methu â chadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel;
- camweinyddiad cyfiawnder;
- perygl i iechyd a diogelwch, er enghraifft, methu â chynnal a chadw offer diogelwch;
- niwed i'r amgylchedd; ac
- ymdrechion i guddio camweddau o'r fath.

Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol waeth p'un a yw'r mater wedi digwydd yn y gorffennol, yn y presennol, neu'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Mae'r mathau o gamwedd yn adlewyrchu cwmpas y Ddeddf.

Bydd gan y sawl sy'n chwythu'r chwiban drwy wneud datgeliad o dan y trefniadau mewnol hyn yr hawl i gael unioni cam os yw'n dioddef gwahaniaethu neu ddiswyddo annheg ar yr amod ei fod yn gwneud y datgeliad â'r gred resymol ei fod er lles y cyhoedd.

# Y broses

Mae trosolwg o'r broses yn y diagram yn Atodiad 1.

Er mwyn gwneud datgeliad; cysylltwch ag un o'r swyddogion Chwythu'r Chwiban enwebedig. Ar hyn o bryd, y swyddogion enwebedig yw'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, a gellir cysylltu â hwy yn y ffyrdd canlynol:

E-bost: whistleblowing@senedd.wales

Ffôn: 0300 200 6537

neu ysgrifennwch at:

Preifat a Chyfrinachol Chwythu'r Chwiban

Pennaeth lLywodraethu a Sicrwydd

Llawr 1A Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Caiff pob gohebiaeth â'r swyddogion Chwythu'r Chwiban enwebedig ei thrin yn gyfrinachol, i'r graddau a ganiateir yn ôl y gyfraith. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys eithriadau ar gyfer gwybodaeth o'r fath.

Os oes gan gyflogai nodwedd warchodedig fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a bod angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i unrhyw un o ofynion y polisi hwn, gall drafod ei anghenion â'r swyddog enwebedig. Bydd y Comisiwn yn rhoi sylw dyledus i bob cais o'r fath ac yn gwneud yr addasiadau rhesymol a phriodol sydd eu hangen er mwyn bodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Bydd y swyddogion enwebedig yn ysgrifennu at y cyflogai sy'n mynegi'r pryder o fewn 10 diwrnod gwaith i ddwyn y pryder i'w sylw:

- yn cydnabod bod pryder wedi'i nodi neu ei gyfeirio;
- yn rhoi arwydd ynghylch sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu ymdrin â'r mater ac;
- yn nodi'r amserlen debygol ar gyfer darparu ymateb terfynol.

Os yw'n amhosibl rhoi'r wybodaeth hon o fewn 10 diwrnod gwaith, bydd y llythyr yn nodi hynny, gan roi rhesymau, a rhoddir y wybodaeth cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

Os gwneir penderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r pryder, caiff hyn ei gadarnhau'n ysgrifenedig i'r cyflogai sy'n mynegi'r pryder cyn gynted â phosibl ac o fewn 10 diwrnod gwaith fan bellaf.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd y swyddog enwebedig yn anfon adborth at y cyflogai sy'n mynegi'r pryder pan fo ymchwiliadau'n dod i ben, ond mae'n rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw

gyfyngiadau cyfreithiol o ran datgelu mathau penodol o wybodaeth. Dylai staff nodi y gall gwneud honiadau anwir neu faleisus drwy'r trefniadau hyn fod yn drosedd ddisgyblu.


Os bydd y swyddog enwebedig wedi ymchwilio i honiad a chanfod bod angen i'r Comisiwn fynd i'r afael â chamwedd, bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Prif Weithredwr a Chlerc er mwyn i'r rheolwyr gymryd camau gweithredu priodol (yn dilyn ymgynghoriad ag uwch reolwyr perthnasol eraill neu staff yr adran Adnoddau Dynol). Os yw'n briodol ym marn y cyflogeion o dan yr amgylchiadau, er enghraifft, pe bai eu pryderon yn ymwneud â'r swyddog chwythu'r chwiban enwebedig neu uwch reolwr, gallant fynegi pryderon yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a  Chlerc.

Nid yw'r trefniant chwythu'r chwiban mewnol hwn yn atal staff rhag gwneud datgeliadau ehangach i bobl y tu allan i'r sefydliad. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn caniatáu datgelu i reoleiddiwr (h.y. cyrff penodol neu rywun a ragnodir gan y Rheoliad ac mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, Archwilydd Cyffredinol Cymru).)

Fodd bynnag, dylai staff nodi bod yn rhaid bodloni mwy o feini prawf ar gyfer datgeliadau allanol na datgeliadau mewnol cyn bod y Ddeddf yn gymwys. Os bydd staff yn ystyried gwneud datgeliad a'u bod yn ansicr ynghylch eu hawliau cyfreithiol, dylent ystyried cael cyngor cyfreithiol annibynnol gan gynghorydd a chanddo'r cymwysterau priodol. Efallai y bydd staff am holi cynrychiolydd yr undeb llafur er mwyn cael cyngor o'r fath neu gyngor cysylltiedig. Efallai y byddant hefyd am gysylltu â Protect, sef elusen sy'n arbenigo ar roi cyngor i bobl sy'n chwythu'r chwiban, drwy ffonio: 020 31172520 neu fynd i'r wefan, www.protect-advice.org.uk

Mae cwestiynau cyffredin sy'n rhoi rhagor o wybodaeth yn Atodiad 2.

# Atodiad 1 – Siart lif y broses Chwythu'r Chwiban



# Atodiad 2 – Cwestiynau Cyffredin:

### Beth yw'r gwahaniaeth rhwng chwythu'r chwiban a gwneud cwyn?

Yn ymarferol, chwythu'r chwiban yw pan fo gweithiwr yn mynegi pryder am berygl neu anghyfreithlondeb sy'n effeithio ar bobl eraill (ei gyflogwr). Fel arfer, nid yw'r sawl sy'n chwythu'r chwiban yn cael ei effeithio'n bersonol, yn uniongyrchol, gan y perygl neu'r anghyfreithlondeb. Felly, prin iawn y byddai canlyniad unrhyw ymchwiliad i'w bryderon o fudd personol i'r sawl sy'n chwythu'r chwiban. O ganlyniad, ni ddylai fod disgwyl i'r sawl sy'n chwythu'r chwiban brofi ei achos; bydd yn mynegi'r pryder fel y gall pobl eraill fynd i'r afael â'r mater. Mae hynny'n wahanol i gŵyn. Pan fo rhywun yn gwneud cwyn, mae'n dweud ei fod ef, yn bersonol, wedi cael ei drin yn wael. Gallai'r driniaeth wael hon gynnwys achos o dorri hawliau cyflogaeth unigolyn neu fwlio, ac mae'r achwynydd yn ceisio unioni cam neu sicrhau cyfiawnder er ei les ei hun. Felly, gallai canlyniad y gŵyn fod o fudd i'r sawl sy'n gwneud y gŵyn, ac am y rheswm hwnnw, disgwylir iddo allu profi ei achos.

### Beth neu bwy y gallaf fynegi pryder yn ei gylch?

Gellir mynegi pryderon am Gomisiwn y Senedd neu aelod o'i staff, gan gynnwys contractwyr a gweithwyr dros dro. Nid yw'r polisi yn cynnwys Aelodau o’r Senedd a’u staff cymorth. Mae trefniadau ar wahân ar waith ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth, gan gynnwys cysylltu â'r Comisiynydd Safonau yn y ffyrdd a ganlyn:

Drwy ysgrifennu at:

Y Comisiynydd Safonau

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

cyfeiriad e-bost: comisiynydd.safonau@senedd.cymru

Rhif ffôn uniongyrchol 0300 200 6113

### A ellir mynegi pryderon yn gyfrinachol neu'n ddienw?

Fel arfer, y ffordd orau o fynegi pryder yw drwy ei wneud yn agored. Os yw'r pryder wedi'i fynegi'n agored, mae'n haws i'r Comisiwn asesu'r mater, penderfynu sut i ymchwilio iddo, deall unrhyw gymhellion a chael rhagor o wybodaeth. Os bydd unigolyn yn mynegi pryder gan roi ei enw ar yr amod

na chaiff ei ddatgelu heb ei ganiatâd, bydd y pryder hwnnw'n gyfrinachol. Os na fydd unigolyn yn rhoi ei enw o gwbl, bydd y pryder hwnnw'n ddienw. Yn amlwg, os nad yw'r Comisiwn yn gwybod pwy a ddarparodd y wybodaeth, nid yw'n bosibl rhoi sicrwydd iddynt na'u diogelu.

## Pa wybodaeth y dylid ei rhoi wrth chwythu'r chwiban?

Os oes tystiolaeth i ategu'r honiadau ar gael, yn amlwg, byddai hynny o ddefnydd. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion gael tystiolaeth cyn rhoi gwybod am y mater, ond mae'n dweud y dylai'r unigolyn gredu, yn rhesymol, bod y wybodaeth yn wir o ran sylwedd. Dylai unigolion siarad â rhywun yn eu gwasanaeth am eu pryder cyn gynted â phosibl yn hytrach nag aros i gasglu tystiolaeth.

## Beth yw Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998?

Cyflwynwyd y Ddeddf i ddarparu fframwaith y gall gweithwyr ei ddefnyddio i wneud datgeliadau er lles y cyhoedd - a chael eu diogelu rhag erledigaeth. Caiff rhywun sy'n chwythu'r chwiban drwy wneud 'datgeliad a ddiogelir' o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd ei ddiogelu'n statudol. Dylech nodi, fodd bynnag, nad yw'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yn cwmpasu pob math o gamwedd yng ngweithdrefnau'r sefydliad (gweler beth sy'n 'ddatgeliad a ddiogelir' a beth sy'n 'ddatgeliadau cymwys' isod). Ar yr amod y caiff amodau penodol o'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd eu bodloni, mae gan

weithwyr hawl gyfreithiol i beidio â dioddef niwed o ganlyniad i chwythu'r chwiban a gallant wneud hawliad cyfreithiol am wahaniaethu os byddant yn dioddef unrhyw niwed.

### Beth yw datgeliad cymwys?

O dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, datgeliad cymwys yw unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth, sydd, ym marn resymol y gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad, yn tueddu i ddangos bod un neu ragor o'r canlynol wedi'i gyflawni, yn cael ei gyflawni neu'n debygol o gael ei gyflawni:

- trosedd;
- methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol;
- camweinyddiad cyfiawnder;
- rhoi iechyd a diogelwch rhywun mewn perygl;
- niwed i'r amgylchedd; a
- chuddio gwybodaeth yn fwriadol mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r uchod.

Mae'n amherthnasol p'un a yw'r wybodaeth yn gyfrinachol ai peidio, mae'n amherthnasol p'un a yw'r hyn a ddigwyddodd, sy'n digwydd neu y byddai'n digwydd yn digwydd yn y DU neu fan arall, ac mae'n amherthnasol p'un ai cyfraith y DU neu gyfraith unrhyw wlad neu diriogaeth arall sy'n gymwys i'r

digwyddiad dan sylw. Gall rhwymedigaeth gyfreithiol gynnwys rhwymedigaeth gytundebol neu rwymedigaeth sifil arall yn ogystal â rhwymedigaeth o dan gyfraith droseddol.

## Beth yw datgeliad a ddiogelir?

O dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, 'datgeliad a ddiogelir' yw 'datgeliad cymwys' a wneir yn unol ag amodau'r ddeddfwriaeth. Gall unigolion wneud datgeliad a ddiogelir heb wynebu cosb, ar yr amod y caiff y datgeliad ei wneud yn ddidwyll.

Mae'r amodau ar gyfer gwneud datgeliad a ddiogelir yn llai rhwymedigaethus os gwneir y datgeliad yn fewnol, gan olygu mwy o ddiogelwch i'r sawl sy'n chwythu'r chwiban.

## Datgeliadau ehangach

Gellir gwneud datgeliadau ehangach, er enghraifft, i'r heddlu neu reoleiddwyr nad ydynt wedi'u rhagnodi. Yn ôl darpariaethau'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, caiff unigolion eu diogelu os byddant yn gwneud datgeliad cymwys; ac

- yn gwneud y datgeliad yn ddidwyll; ac
- yn credu, yn rhesymol, bod y wybodaeth a ddatgelir, ac unrhyw honiad sy'n rhan ohoni, yn wir o ran sylwedd; ac
- nid ydynt yn gwneud y datgeliad er eu lles personol; a'i fod yn rhesymol, o dan holl amgylchiadau'r achos, iddynt wneud y datgeliad, ac
- os bydd unrhyw rai o'r amodau a ganlyn yn cael eu bodloni:

adeg gwneud y datgeliad, mae'r unigolyn yn credu, yn rhesymol, y bydd yn cael ei niweidio gan ei gyflogwr os yw'n gwneud datgeliad i'w gyflogwr neu berson rhagnodedig, neu;

Mewn achos lle nad oes unrhyw un wedi'i rhagnodi mewn perthynas â methiant perthnasol, mae'r unigolyn yn credu, yn rhesymol, ei bod yn debygol y caiff gwybodaeth sy'n ymwneud â'r methiant perthnasol ei chuddio neu ei dinistrio os yw'n gwneud datgeliad i'w gyflogwr, neu;

Mae'r pryder eisoes wedi'i fynegi i'r cyflogwr neu reoleiddiwr rhagnodedig.

## Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth, gan nad yw'r deunydd hwn yn ateb fy nghwestiwn?

Os bydd gennych gwestiwn ynghylch chwythu'r chwiban nad oes ateb iddo yn y ddogfen hon, cysylltwch â:

Gareth Watts, y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, drwy anfon e-bost at gareth.watts@senedd.cymru neu ffonio 0300 200 6537.